



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

---

## **DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU**

---

<b>TEITL</b>	<b>Rheoliadau'r Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019</b>
<b>DYDDIAD</b>	<b>16 Hydref 2019</b>
<b>GAN</b>	<b>Rebecca Evans AC, Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd</b>

### **Rheoliadau'r Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019**

#### **Y gyfraith sy'n cael ei diwygio**

- Mae Rheoliad (UE) Rhif 1381/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 yn sefydlu Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020.
- Mae rheoliad 3 o Reoliadau'r Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth (Dirymu) (Ymadael â'r UE) 2019 yn dirymu Rheoliad (UE) Rhif 1381/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 sy'n sefydlu Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020 (Testun gyda pherthnasedd i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd). Mae'r rheoliad hwnnw'n sefydlu Rhaglen yr UE ar hawliau, cydraddoldeb a dinasyddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020, sy'n anelu at warchod a hybu hawliau a rhyddidau penodol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

#### **Trosolwg o Bolisi'r OS**

Sefydlodd y rheoliad raglen yr UE ar hawliau, cydraddoldeb a dinasyddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020, sy'n anelu at warchod a hybu hawliau a rhyddidau penodol o dan gyfraith yr Undeb Ewropeaidd.

Gellir rhannu'r meysydd polisi y mae Rheoliadau 2019 yn ymwneud â nhw yn fras i'r canlynol:

1. Hybu peidio â gwahaniaethu,
2. Mynd i'r afael â hiliaeth, senoffobia, homoffobia a mathau eraill o anoddefgarwch
3. Hybu hawliau pobl ag anableddau
4. Hybu cydraddoldeb rhwng dynion a benywod a phrif ffrydio rhywedd
5. Atal trais yn erbyn plant, pobl ifanc a grwpiau eraill sydd mewn perygl (Daphne)
6. Hybu hawliau plant
7. Sicrhau'r lefel uchaf o ran diogelu data
8. Hybu'r hawliau sy'n hanu o ddinasyddiaeth yr Undeb

## 9. Gorfodi hawliau defnyddwyr

Ar hyn o bryd mae un prosiect yn cael ei ariannu yng Nghymru, sef 'Action against dating violence',

### **Diben y diwygiadau**

I ddirymu Rheoliad (UE) Rhif 1381/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar 17 Rhagfyr 2013 yn sefydlu Rhaglen Hawliau, Cydraddoldeb a Dinasyddiaeth ar gyfer y cyfnod rhwng 2014 a 2020.

### **Unrhyw effaith a gaiff yr OS ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru**

Bydd yr OS yn cael effaith gyfyngedig ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru. Mae'r OS trosglwyddo swyddogaethau o Gomisiwn yr UE i Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Dim ond un prosiect sydd yng Nghymru, a dim ond am gyfnod cyfyngedig yn unig y mae trefniant cyllido yn ei le gan yr OS. Bydd yr OS yn sicrhau na fydd dim yn amharu ar gyllid y prosiect yng Nghymru. Nid yw'n effeithio ar bwerau Gweinidogion Cymru o dan adran 60 (hybu llesiant) a 58A (swyddogaethau gweithredol Gweinidogol) Deddf Llywodraeth Cymru 2006, a fyddai'n eu galluogi i sefydlu cynllun tebyg yn y dyfodol, os mai dyna yw polisi Llywodraeth Cymru.

### **Unrhyw effaith a gaiff yr OS ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Nid yw'r OS yn cael effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Esboniadol cysylltiedig, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma:

<https://beta.parliament.uk/work-packages/bqh5LDYF>

### **Pam y rhoddwyd cydsyniad**

Nid oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru a Lloegr yn arwain at ddyblygu, a chymhlethdod diangen yn y llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar gyfer y Deyrnas Unedig gyfan yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y Deyrnas Unedig sy'n hyrwyddo eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn deddfu ar ein rhan.

Yn yr achos hwn, mae effaith yr OS am gyfnod cyfyngedig o amser a bydd yn caniatáu ar gyfer parhad ac effeithioldeb y taliad. Pan fydd angen gwneud penderfyniadau am gronfeydd olynol, bydd Llywodraeth Cymru yn cymryd rhan lawn yn y sgysiau hynny.